ARHOLIADAU 360°

Ffocws ar...
Sut mae papurau'n cael eu gosod?

Mae arholiadau'n profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr. Mae pob papur arholiad yn cael ei ddatblygu gan dimau pwnc CBAC dros gyfnod o 18 mis i sicrhau asesiad teg. Swyddog Pwnc CBAC sy'n rheoli'r broses.

Mae **Prif Arholwr** yn drafftio pob papur arholiad a'r cynllun marcio.

Mae hyn yn cael ei wirio a'i ddiwygio gan yr **Adolygwr.**

Mae'r deunyddiau'n cael eu hadolygu gan bwyllgor o **Uwch arholwyr** ac **Arbenigwyr pwnc** i sicrhau bod pob cwestiwn yn glir a bod y papur arholiad yn asesiad dilys. Mae o leiaf un aelod o'r pwyllgor hwn yn siarad Cymraeg.

Mae'r papur arholiad yn cael ei greu gan ddefnyddio'r templed a'r gosodiad cywir ac mae **Archwiliwr** wedyn yn profi'r papur.

Mae'r papur arholiad yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg gan **Gyfieithydd** a'i wirio gan **Arbenigwr Pwnc.**

Caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg y papur eu dychwelyd i'r **Swyddog Pwnc**, yr **Uwch-arholwr** a'r **Adolygwr** i'w gwirio'n derfynol cyn eu bod yn barod.

Mae'r **Prif Arholwr** yn ysgrifennu'r cwestiynau ar gyfer y papur arholiad gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â fanyleb a bod lefel yr her yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Bydd y **Prif Arholwr** hefyd yn adolygu'r papur arholiad ar adegau penodol yn ystod y broses.

Mae'r **Swyddog Pwnc** yn gyfrifol am reoli proses y papur arholiad o'r drafft cyntaf i'r fersiwn terfynol.

Mae'r **Adolygwr** yn gwirio'r papur arholiad yn ofalus ac, ynghyd â'r **Prif Arholwr**, yn sicrhau bod y cwestiynau'n addas ac nad oes unrhyw wallau.

Mae'r **Archwiliwr** yn sefyll y papur arholiad fel pe bai'n ddysgwr. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod modd ei gwblhau yn yr amser sy'n cael ei ganiatáu ar gyfer yr arholiad, nad oes unrhyw wallau nac unrhyw beth wedi'i adael allan a'i fod wedi'i osod ar y lefel gywir.

Mae'r **Cyfieithydd** yn cyfieithu fersiwn Saesneg y papur arholiad i'r Gymraeg.

Mae'r **Arbenigydd Pwnc** yn sicrhau bod y cyfieithiad Cymraeg yn cyfateb i'r fersiwn Saesneg ac yn sicrhau bod y derminoleg yn cyfateb i'r fanyleb.